



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 7 Ionawr 2013

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 15 IONAWR 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012 (copi'n amgaeedig).

**5 CYFLEUSTERAU ARFORDIROL Y RHYL** (Tudalennau 15 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygiad Economaidd (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynigion ar gyfer Cyfleusterau Arfordirol y Rhyl a gwaith brys i'r Tŵr Awyr.

**6 CYFLAWNI CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL SIR DDINBYCH** (Tudalennau 93 - 106)

Ystyried cyd-adroddiad gan y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygiad Economaidd a Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r broses ar gyfer atgyfnerthu ac ehangu'r Cynlluniau Tref a chymeradwyo dyraniad rhagarweiniol cyllid ar gyfer blaenoriaethau a adnabuwyd yn 2012/13 a 2013/14.

**7 COFRESTRU AWTOMATIG AR GYNLLUNIAU PENSIWN (CYFRIFOLDEB CYFLOGWR A GOBLYGIADAU COST)** (Tudalennau 107 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu ymateb arfaethedig y Cyngor i ofynion Deddf Pensiynau 2008, opsiynau gweithredu ac argymhellion y gofynnir i'r Cabinet eu cymeradwyo.

**8 CYLLIDEB 2013/14** (Tudalennau 115 - 126)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2013/14 a'r cynnydd sy'n deillio yn lefel y Dreth Gyngor.

**9 ADRODDIAD CYLLID**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi i ddilyn) yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 127 - 130)

Derbyn Blaenraglen Waith amgaeedig y Cabinet a chydnabod y cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.

### **11 DYFARNU CYTUNDEB FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU DYFEISIAU AML-SWYDDOGAETH (Tudalennau 131 - 134)**

Ystyried cyd-adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorwyr Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dyfarnu'r Fframwaith Dyfeisiau Aml-swyddogaeth i gyflenwr a enwyd.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Hugh Evans  
Julian Thompson-Hill  
Eryl Williams  
Bobby Feeley

Hugh Irving  
Huw Jones  
Barbara Smith  
David Smith

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuencid; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg

Sylwedyddion: Y Cyngorwyr Ray Bartley, Meirick Davies, Richard Davies ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PMc); Rheolwr Prosiect (NR); Rheolwr Tîm Dylunio ac Adeiladu (SE), Rheolwr Caffael Strategol (AS), a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol neu ragfarnus.

### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2012.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

### 5 CYFLAWNI SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU

Cyflwynodd y Cyngorwyr Huw Irving yr adroddiad yn diweddar y Cabinet at y cynnydd o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau o'r rhaglen adnewyddu tai ar gyfer Stoc Tai'r Cyngor; y costau a achoswyd ar gyfer contractau 6, 7 ac 8, a chawsant drosolwg o foddhad cwsmeriaid a manteision

adfywio ehangach o ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn fodlon gyda'r cynnydd hyd yma, a'r dyddiad cwblhau a ragwelwyd ar gyfer y rhaglen oedd Rhagfyr 2013.

Cymerodd yr Aelodau y cyfle i holi'r Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol, a ymatebodd fel a ganlyn –

- Roedd adborth rhagarweiniol o'r arolwg cyflwr stoc yn ddiweddar yn awgrymu y gellid cynnwys costau yn y tybiaethau gwreiddiol a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes Stoc Tai
- Byddai mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl leol a busnesau lleol wrth ymgymryd â gwaith ailwampio tai
- Byddai'r holl eiddo wedi cyrraedd safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2013 ac eithrio nifer fechan o dai sydd wedi eu gadael allan gan fod tenantiaid wedi gwrthod mynediad i wneud y gwaith atgyweirio anghenrheidiol
- Pwysleisio'r berthynas gyfreithiol a chytundebol rhwng landlord a thenant o ran mynediad i eiddo
- Cadarnhau bod Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill o ran cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni'r Safonau a bod contractau wedi eu defnyddio i gefnogi is-gontractwyr lleol a chadwyni cyflenwi yn Sir Ddinbych. Cymerodd yr Arweinydd y cyfle hefyd i longyfarch y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol ar ei benodiad i Dasglu Gweinidogol i gynghori ar opsiynau i alluogi i awdurdodau eraill Cymru gyflawni'r Safonau Ansawdd Tai Cymru.

***PENDERFYNWYD*** cydnabod y cynnydd o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru yn stoc tai ar rent y Cyngor.

## **6 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWARIANT CEFNOGI POBL A NEWID YN Y STRATEGAETH CEFNOGI POBL AR GYFER 2013 I 2014**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gytuno â'r newidiadau yn Strategaeth a Chynllun Gwario Cefnogi Pobl ar gyfer 2013-14 cyn cyflwyno cynlluniau i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynllun gwario 3 blynedd, bwriad Sir Ddinbych oedd bod yn glir ar hyn o bryd ynglŷn â chynllun blwyddyn a dweud bod angen mwy o amser i ddatblygu cynigion ar gyfer blynyddoedd i ddod. Credid y byddai awdurdodau eraill Gogledd Cymru yn gwneud yr un peth.

Roedd Cefnogi Pobl yn rhaglen arwyddocaol yn rhoi gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai i ystod eang o grwpiau agored i niwed. Roedd manylion newid gweinyddiaeth y rhaglen Cefnogi Pobl wedi eu darparu ynghyd â'r goblygiadau i Sir Ddinbych a'r gostyngiadau sylweddol mewn cyllid gyda'r effaith debygol ar wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Roedd y gostyngiad tebygol yn y grant Cefnogi Pobl dros y pum mlynedd nesaf oddeutu £1.5m. Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles sylw'r aelodau at y newidiadau penodol yn y Strategaeth Cefnogi Pobl ar gyfer 2013/14 fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet y newidiadau yn y Strategeth Cefnogi Pobl a'r cynigion i reoli'r gostyngiad yn y cyllid grant. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod y gwasanaeth Cefnogi Pobl yn darparu cymorth tai ac felly nid oedd yn ffurfio rhan o gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau ar y cronfeydd wrth gefn penodol a oedd wedi eu neilltuo i liniaru peth o effaith y gostyngiad. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Arweinydd ynglŷn â diffiig trefniadau llywodraethu clir, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am benderfyniadau, hyd yma wedi gweithredu yn ôl consensws ac felly nid oedd eglurder trefniadau llywodraethu eto wedi eu profi. Ychwanegodd y Cynghorydd Feeley bod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wedi cytuno cyfarfod yn rheolaidd i roddi eglurder pwrpas ac ystyried sut byddai awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r rhaglen.

**PENDERFYNWYD** cytuno gyda'r newidiadau i Strategaeth a Chynllun Gwario Cefnogi Pobl ar gyfer 2013-14 i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

## 7 GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymuno â Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd, yn destun amodau, gydag ymrwymiad pum mlynedd i ddechrau. Cwblhawyd yr achos busnes i greu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gwahoddwyd holl gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu ymrwymiad ffurfiol i ymuno â'r gwasanaeth. Roedd copi o'r llythyr a'r ffurflen i'w chwblhau ynghlwm wrth yr adroddiad.

Rhodddwyd hanes cefndir i'r aelodau ar greu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ymgymryd â gwaith caffael ar gyfer rhwng 20% a 30% o gyfanswm y gwariant yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd manylion lefel gwariant; buddsoddiad i sefydlu'r gwasanaeth; arbedion tebygol i lywodraeth leol, a'r sylfaen ar gyfer ymrwymiad i'r gwasanaeth wedi eu rhoi yn yr adroddiad.

Tra'n cefnogi'r achos busnes mewn egwyddor pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cefnogi'r economi lleol a gofyn am sicrhad na fyddai ymuno â'r Gwasanaeth yn cael effaith negyddol ar funesau lleol. Ailadroddodd y swyddogion y byddai'r Gwasanaeth ond yn cyfrif am ryw 20% - 30% o'r gwariant ar gaffael yn cynnwys categorïau penodol a oedd yn addas ar gyfer caffael cenedlaethol mawr nad oedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn ei brynu'n lleol beth bynnag. Roedd mecanwaith eithrio os nad oedd awdurdod eisiau cymryd rhan mewn contract penodol oherwydd effeithiau lleol neu os nad oedd y contract yn rhoi arbedion effeithlonrwydd i'r awdurdod ac y gellid gwneud achos ar sail hynny. Byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hefyd yn cymryd i ystyriaeth Bolisi Caffael Cymru a manteision i'r economi lleol.

Trafodwyd materion eraill gyda'r Cynghorydd Thompson-Hill a'r swyddogion, a ymatebodd fel a ganlyn –

- Ar ôl dadansoddiad rhagarweiniol, tybiwyd y byddai arbedion i Sir Ddinbych rhwng £250k - £750k

- Roedd cytundebau fframwaith yn caniatáu i'r awdurdod adael y rhan fwyaf o contractau presennol heb gosb i ganiatáu trosglwyddiad llyfn i'r trefniadau newydd
- Cydnabod y byddai elfen o dyndra mewn perthynas â rhai contractau gyda threfniadau cenedlaethol a rhanbarthol ond y byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn caniatáu cyfleoedd pellach i gael arbedion
- Gan fod cytundeb cenedlaethol eisoes yn bodoli ar gyfer goleuadau stryd, ni fyddai dymuniad i ddyblygu hynny dan y trefniant newydd
- Roedd ymrwymiad i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar y sail y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd gyntaf ac yna rhagwelwyd y byddai'n ariannu ei hun
- Gellid ailystyried aelodaeth o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y dyfodol os nad oedd yn cynhyrchu'r arbedion dymunol i Sir Ddinbych
- Dylai fod yn bosibl monitro effaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ryw chwech i ddeuddeg mis ymlaen.

Roedd y Prif Weithredwr yn cymeradwyo'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a phwysleisiodd bwysigrwydd monitro i asesu ei effeithiolrwydd a'r manteision i Sir Ddinbych. Roedd lefel uchel o ymwybyddiaeth o ran cydbwysu cefnogaeth i fusnesau lleol a chael arbedion. Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhelliad yn yr adroddiad a newid yr adroddiad i ddisodli 4.28 gyda 4.27 ac fe –

***BENDERFYNWYD*** bod y Cabinet yn cefnogi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac aelodaeth Sir Ddinbych am gyfnod o bum mlynedd yn ddarostyngedig i'r amodau yn 4.27 yr adroddiad.

## **8 ADRODDIAD CYLLID 2012/13**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd. Darparodd grynodedd byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- Rhagwelwyd tanwariant o £344k ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol, ac roedd y rhagolygon i ysgolion yn symudiad cadarnhaol ar falansau o £121k
- Cyflawnwyd arbedion a gytunwyd o £2.673m (79%) gyda £702k (21%) ar y gweill a £25k (1%) yn cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf
- Pwysleisio'r prif amrywiadau yn y cyllidebau neu dargedau arbed a manylion cyllidebau gwasanaeth unigol
- Diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at y Gyllideb Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid ac esboniodd bod y tanwariant o £23k yn ymwneud â'r elfen Gofal Cwsmeriaid. Gan y gellid camddehongli'r data yn hawdd gofynnodd am fwy o eglurder yn y dyfodol mewn adroddiadau ar feysydd gwasanaeth unigol. Tynnodd y Cynghorydd Williams sylw'r aelodau hefyd at y Gyllideb Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, ac adroddodd ar y newidiadau arwyddocaol i fformiwla ariannu ysolion a oedd wedi cael cefnogaeth y Fforwm Cyllidebau Ysgolion. Roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau hefyd wedi craffu ar a derbyn y cynigion.



Gobeithiai'r Cynghorydd Arwel Roberts na fyddai unrhyw ysgol ar ei cholled o ganlyniad i'r fformiwla ariannu newydd ac ymatebodd y Cynghorydd Williams bod yr ysgolion wedi cytuno â'r newidiadau yn y fformiwla.

Cymerodd y Cabinet a'r aelodau lleyg y cyfle i holi cwestiynau a thrafodwyd nifer o faterion fel a ganlyn -

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Huw Jones yr anhawster wrth ddehonglu data cyllidebol ar gyfer prosiectau mawrion yn pontio nifer o flynyddoedd a chytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau roddi mwy o eglurder mewn adroddiadau yn y dyfodol
- Roedd arbedion cyllidebol adrannol fel canran o gyllidebau net 2010/11 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad (Atodiad 3) ar gais yr Arweinydd, a ysgogodd drafodaeth ar fethodolegau'r gorffennol ar ddyrannu arbedion effeithlonrwydd ledled yr awdurdod, a'r angen am ddull gwahanol o ddelio ag effeithlonrwydd yn y dyfodol, ac i reoli clustnodi ac amddiffyn cyllidebau penodol.
- Roedd y gost o ymateb i'r llifogydd yn cael ei weithio allan ar hyn o bryd a byddai cais yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny. Roed cyllid o'r gyllideb wrth gefn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac ni fyddai costau'n cael eu codi ar y gwasanaethau dan sylw. Cydnabuwyd y byddai effaith y llifogydd yn parhau ac y byddai angen llawer o gefnogaeth yn y dyfodol, a byddai costau'n cael eu holrhain.
- Nododd y Cynghorydd Eryl Williams y twf mewn rhai meysydd gwasanaeth a gostyngiadau mewn eraill a gofynnodd am sicrhad mewn perthynas â hynny. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y ffigurau yn rhoi sicrhad bod arbedion wedi eu cyflawni yn y meysydd priodol a bod twf a gostyngiad mewn meysydd gwasanaeth yn anochel wrth i flaenoriaethau'r cyngor newid. Pwysleisiodd yr angen am gapasiti i gyflawni'r cynllun corfforaethol ac i reoli'r newidiadau mawrion a'r prosiectau a fyddai'n deillio o'r twf yn y meysydd hynny
- Roedd effaith y newidiadau i'r Dreth Gyngor wedi ei thrafod mewn gweithdy ar y gyllideb i aelodau yn ddiweddar, ac roedd elw is wedi ei dybio ar gyfer blynyddoedd i ddod, ac wedi ei gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol
- Rhoddwyd esboniad ar gronfa wrth gefn Cefnogi Pobl a oedd wedi ei chronni o danwariant bwriadol i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod.

Ar ôl y drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argmhelliad ac fe –

***BENDERFYNWYD*** cydnabod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

## **9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried. Dywedodd y Cynghorydd David Smith y byddai adroddiad ar Adolygiad Ysgolion Rhuthun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Mai 2013.

***PENDERFYNWYD*** cydnabod Blaenraglen Waith y Cabinet.

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

**PENDERFYNWYD** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir ym Mharagraffau 13, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### 10 DATBLYGIAD OCEAN PLAZA, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am benderfyniad gan y Cabinet mewn perthynas ag opsiwn i brynu tir yn Quay Street a Westbourne Avenue, y Rhyl. Amlygodd newidiadau a wnaed i'r adroddiad gwreiddiol ar ôl cyfarfod gyda'r datblygwr a enwyd yn ystod yr wythnos flaenorol a thynnodd sylw'r aelodau at yr opsiynau i'w hystyried a'r goblygiadau yn deillio ohonynt.

Manylodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y cynnydd a wnaed hyd yma o ran delio â materion a oedd ar ôl gyda'r datblygiad cymhleth ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar haeddiant rhoi'r opsiwn fel yr argymhellwyd. Gofynnodd y Cynghorydd Hugh Irving am sicrhad na fyddai rhoi'r opsiwn yn arwain at adael y tir yn ddiffaith a dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai'r cymal cyfyngiad amser yn helpu delio gyda hynny a'i fod wedi ei gytuno gyda'r datblygwr. Hysbyswyd y Cabinet hefyd bod Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl wedi cael trosolwg lefel uchel o'r opsiynau ac yn cefnogi'r argymhellion ar y ffordd ymlaen.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -

- (a) *yn rhoi'r opsiwn i'r datblygwr a enwyd yn yr adroddiad i brynu'r buddiant rhyddfrait ar gyfer y safleoedd a nodwyd am gyfnod cyfyngedig o 18 mis i alluogi i'r datblygwr gyflwyno cais cynllunio newydd o fewn 6 mis o roddi'r opsiwn ac i sicrhau ymrwymiad deiliad i'r datblygiad o fewn gweddill y cyfnod cyfyngiad amser;*
- (b) *cymeradwyo penodi'r Prisiwr Dosbarth i gael pris ar y safle neu rannau ohono yn adlewyrchu cynlluniau presennol ac i'r dyfodol a chyfyngiadau ffisegol, a*
- (c) *bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn cael awdurdod dirprwyedig i ddatblygu cerrig milltir allweddol gyda'r datblygwyr a enwyd i adolygu cynnydd ar y cynllun, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet bob chwe mis.*

### 11 GWASANAETHU CYFARPAR NWY STOC TAI'R CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract gwasanaethu, trwsio a chynnal a chadw ney newidd ar gyfer Stoc Tai'r Cyngor. Roedd adroddiad manwl gan ymgynghorwyr arbenigol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Er mwyn cael contract manyleb uchel, comisiynwyd ymgynghorydd. Darparwyd manylion y prosiect ymgynghorol yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys datblygu'r fanyleb, tendro'r contract ac arfarnu contractau. Roedd y ffactorau gwahaniaethu allweddol a oedd wedi sicrhau'r lle cyntaf i'r contractwr a ffefrir hefyd wedi eu hamlygu.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad, gan roddi sylw penodol i arfarniad y tendrau a'r canlyniadau ac roeddynt yn falch o weld tenantiaid yn cymryd rhan yn y broses ddethol, gan ddangos gwerth am arian a boddhad cwsmeriaid. Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at ebost gan y Cynghorydd Martyn Holland ar gyflenwyr nwy a chadarnhaodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol bod y mater yn cael ei drin yn uniongyrchol gyda'r Cynghorydd Holland y tu allan i'r cyfarfod. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ar faterion yr iaith Gymraeg, dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai is-gontractwyr lleol yn cael eu comisiynu i wneud y gwaith, a fyddai'n ffurfio cam nesaf y broses.

**PENDERFYNWYD** bod y contract tair blynedd (a dwy) ar gyfer gwasanaethu, trwsio a chynnal a chadw systemau gwresogi nwy Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei ddyfarnu i'r contracwr a ffefrir fel y manylwyd yn yr adroddiad.

## 12 CAFFAEL GWAITH ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU: STRATEGAETH GAFFAEL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen â'r prosiect caffael i'r cyfnod gweithredu a sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau adeiladu ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd yn amod cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif bod awdurdodau yn ymuno â'r drefn honno er mwyn eu galluogi i ddenu cyllid grant.

Y nod oedd sefydlu cytundeb fframwaith rhanbarthol ar gyfer gwaith adeiladu mawr dros drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer gwaith adeiladu (gwerth dros £4.35m) a gwella arferion caffael gwaith adeiladu presennol ar gyfer prosiectau islaw'r trothwy hwnnw. Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar fanylion y prosiect, agweddau gweithredol a chyfranogiad asiantaethau eraill sector cyhoeddus ynghyd â'r amserlen i weithredu hyn. Nododd bod y fframwaith yn anelu at wneud y mwyaf o fanteision y prosiectau i'r gymuned leol a chynnal datblygiad economaidd, ac ymhelaethodd ar ystyriaethau allweddol a geisiwyd trwy gynllun manteision cymunedol a gyflwynwyd gan gontractwyr. Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r manteision i'r gymuned leol a'r ymgynghori helaeth a ymgymerwyd gyda'r diwydiant adeiladu lleol er mwyn bwydo gwybodaeth i'r strategaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau lleol.

Cymerodd y Cynghorydd Thompson-Hill y cyfle i ddiolch i Nina Ruddle, Rheolwr Prosiect a Sion Evans, Rheolwr Tîm Dylunio ac Adeilad am eu gwaith caled ar y prosiect ac fe –

**BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r prosiect i fynd ymlaen i'r cam gweithredu i sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau dros £4.35m a gwella arferion caffael gwaith adeiladu presennol islaw'r lefel honno ar draws y rhanbarth.

### 13 LLETY Â CHYMORTH A LLOCHES NOS TRAWS-FFINIOL

Cyflwynodd y Cyngorydd Bobby Feeley yr adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyd-gomisiynu gyda Chyngor Sir y Fflint wasanaeth traws-ffiniol Llety â Chymorth a Lloches Nos er mwyn gwella gwerth am arian.

Ymhelaethodd y Cyngorydd Feeley ar y prosiect Llety â Chymorth a'r lloches nos mewn argyfwng ar gyfer pobl ifanc ddi-gartref a rhoddodd fanylion pellach ar y trefniadau cyd-gaffael arfaethedig rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Rhoddwyd hefyd y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad i eithrio'r cyd-gontract o'r gofyniad i dendro. Dywedodd bod y prosiect i leoli pobl ifanc agored i niwed gyda theuluoedd er mwyn eu cefnogi yn flaengaredd gan Sir Ddinbych a oedd hefyd wedi ei mabwysiadu gan Sir y Fflint. Cefnogodd y Cabinet yr agwedd a oedd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i bob ifanc sy'n cael eu gosod mewn llety argyfwng, ac fe –

**BENDERFYNWYD** bod y Cabinet -

- (a) yn cymeradwyo ymestyn y contract presennol gyda Local Solutions ar gyfer gwasanaeth Llety â Chymorth Sir Ddinbych hyd at 31ain Mawrth 2013 i roddi amser i gyd-gomisiynu'r gwasanaeth hwn gyda Chyngor Sir y Fflint;
- (b) yn cymeradwyo sefydlu trefniadau cyd-gaffael rhwng Cyngorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gomisiynu gwasanaeth traws-ffiniol Llety â Chymorth a Lloches Nos;
- (c) yn eithrio'r cyd-gontract ar gyfer y gwasanaeth Llety â Chymorth a Lloches Nos o'r gofyniad i dendro, a
- (d) yn dyfarnu'r contract ar gyfer y gwasanaeth hwn i Local Solutions, darparwr presennol gwasanaeth Llety â Chymorth Sir Ddinbych.

### 14 STRWYTHURAU GWASANAETH: GWASANAETH PRIFFYRDD A SEILWAITH

Cyflwynodd y Cyngorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r opsiwn a ffefrir ar ddyfodol y gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad wedi ei gynhyrchu mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ar 23 Hydref bod angen ystyried cyfleoedd eraill er mwyn rhesymoli gwaith rheoli, lleihau costau a gwella gwasanaethau.

Tynnwyd sylw'r aelodau at yr adolygiad o'r opsiynau a oedd ar gael, a oedd wedi eu manylu yn yr adroddiad a'u sgorio o gymharu â meini prawf manteision. Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ar y canfyddiadau hynny. Dywedodd y Cyngorydd Smith bod yr adroddiad wedi ei graffu gan y Pwyllgor Craffu

Partneriaethau a darlennodd allan eu darganfyddiadau hwy, a oedd wedi eu crybwyll yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, ailadroddodd yr aelodau eu siomedigaeth nad oedd integreiddio llawn wedi bod yn bosibl yn yr achos hwn, ond derbyniant y byddai cydweithredu yn digwydd ar raddfa is. Cydnabu bod gwersi wedi eu dysgu o'r broses a fyddai'n galluogi cydweithredu mwy effeithiol yn y dyfodol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Cabinet wedi ymuno â dau brosiect cydweithredol pwysig iawn arall yn ystod cyfarfod heddiw a bod prosiectau cydweithredu arwyddocaol eraill ar y gweill. Mewn perthynas â Phriffyrdd a Seilwaith, byddai'r opsiwn a argymhellwyd yn arwain at well gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd ac ymhelaethodd y Prif Weithredwr ar y strwythur dangosol a'r goblygiadau i Sir Ddinbych.

Cymerodd y Cyngorydd David Smith y cyfle i ddiolch i Danielle Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am ei gwaith caled ac fe –

***BENDERFYNWYD*** rhoi cymeradwyaeth i –

- (a) *symud ymlaen â datblygu Opsiwn 2b – ‘integreiddiad mewnol CSDd gyda pheth cydweithredu ar lefel gwasanaeth penodol’;*
- (b) *symud ymlaen gyda'r broses o benodi ‘Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol’ ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a*
- (c) *ymgyngori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid ar y strwythur dangosol ar gyfer Opsiwn 2b.*

Yn agos at ddiwedd y cyfarfod, cymerodd y Cyngorydd Eryl Williams y cyfle i longyfarch Adran Addysg y Cyngor ar y ffaith bod Sir Ddinbych wedi ei rhestru fel y Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cyflawni trothwy Lefel 2. Amlygodd hefyd ganlyniadau bandiau ysgol rhagorol Sir Ddinbych gyda'r holl ysgolion uwchradd wedi gweld gwella neu gynnal eu bandiau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>15 Ionawr 2013</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Cynghorydd Hugh Evans</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Tom Booty, Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyfleusterau Arfordirol Rhyl</b>

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cysyniad cyffredinol i ymdrin â'r opsiynau a'r ffordd ymlaen i Gyfleusterau Arfordirol Rhyl gan gynnwys y cynnig Dyfrol i'r dyfodol, Yr Heulfan, y Twr Awyr, Theatr y Pafiliwn a Phentref y Plant. Yng ngolau'r opsiynau a'r ffordd ymlaen yn Y Rhyl, mae'r adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion cychwynnol i ddyfodol y Ganolfan Nova, Prestatyn. Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlygu'r angen i ymgymryd ar wahân â gwaith cyfalaf angenrheidiol i sicrhau diogelwch y Twr Awyr yn ddiymdroi.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn elfen allweddol o raglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen. Os byddant yn cael eu gwireddu, bydd cyfleusterau hamdden/twristiaeth presennol yn cael eu huwchraddio'n sylweddol, bydd swyddi newydd yn cael eu creu a bydd hwb i fuddsoddiad sector preifat pellach yn y dref. Bydd y cynigion hefyd yn mynd i'r afael â rhai pryderon a dyheadau sy'n bod ers tro gan gynnwys:

- Anghenion cynnal a chadw parhaus adeilad Yr Heulfan a'i addaswydd fel atyniad yn yr Unfed Ganrif ar Hugain;
- Y dyhead i greu cynnig dyfrol newydd i gymryd lle Yr Heulfan;
- Sicrhau dyfodol positif i Theatr y Pafiliwn Rhyl;
- Sicrhau dyfodol positif i'r Twr Awyr.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

**Argymhelliad 1: I gymeradwyo'r prosiectau arfaethedig mewn egwyddor a datblygiad Cam 2 o achos busnes/cyfiawnhad a ffioedd Cam 2 hyd at £30,000 i:**

- Symud ymlaen datblygiad y dyluniad a'r astudiaeth dichonoldeb i'r ganolfan ddyfrol newydd yn y lleoliad arfaethedig gerllaw'r pwll padlo presennol;
- Ymgorffori cynaliadwyedd strwythur y Twr Awyr yn y cynlluniau hyn a datblygu cynigion ar gyfer ei ddefnyddio/gwella yn y dyfodol;

- Cydnabod yr egwyddor o ddymchwel Yr Heulfan presennol gan arwain at ddatblygiad dyluniadau a phosibiliadau ar gyfer gwelliannau i Theatr y Pafiliwn;
- Cytuno i ddatblygu'r pecyn cyfan (fel un prosiect) a chreu achos busnes manwl;
- Penodi Alliance Leisure Ltd yn ôl amodau'r cytundeb fframwaith presennol i gynorthwyo gyda datblygiad y prosiect. (Mae arbedion o hyd at £40k wedi'u gwireddu hyd yma trwy ddefnyddio fframwaith Alliance.);
- Sicrhau bod y cyfan yn datblygu yn unol gyda chynlluniau Y Rhyl yn Symud Ymlaen ehangach a sicrhau bod y prosiect yn effeithio ar y cynlluniau hynny;
- Sefydlu Bwrdd Prosiect i fonitro a llywio cynnydd.

**Argymhelliad 2: I gymeradwyo gwaith brys i'r Twr Awyr i leihau risgiau iechyd a diogelwch presennol ac i sicrhau bod y strwythur yn ddiogel – cyllideb hyd at uchafswm o £35,000.** *(DS Os nad yw'r Cyngor yn symud ymlaen i Gam 2 fel yr argymhellir uchod, bydd yr angen i gynnal gwaith diogelu ar Y Twr Awyr yn parhau).*

#### 4. Manylion yr adroddiad

##### 4.1 Beth sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i gynorthwyo gyda'r adroddiad hwn – Gwaith dichonoldeb cychwynnol i ddatblygu opsiynau dylunio?

Er mwyn sefydlu dichonoldeb gwahanol gynigion a'u lleoliadau, mae ymweliadau safle ac astudiaethau cychwynnol wedi'u cynnal gan Bartner Datblygu'r Cyngor, Alliance Leisure, gan ddefnyddio ymgynghorwyr ar gyfer adolygiadau strwythurol a gwaith dylunio.

##### 4.2 Gwybodaeth gefndir pellach – Adolygiad Hyder

Bydd Aelodau yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer o wahanol adolygiadau wedi'u cynnal dros y 2 flynedd diwethaf, ac mai Astudiaeth Atyniadau Rhyl Hyder 2010 oedd y prif adroddiad.

Mae'r holl adroddiadau wedi bod yn gyson wrth gydnabod bod adeilad Yr Heulfan wedi cyrraedd diwedd ei oes buddiol, ac y gallai creu cynnig hamdden dwr newydd blaenllaw i ymwelwyr a'r gymuned chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o adfywio'r llain arfordirol.

Fodd bynnag, bu nifer o newidiadau ers adroddiad Hyder:

- Mae'r arian cyhoeddus sydd ar gael wedi gostwng yn sylweddol ac nid yw'r cynllun gwreiddiol a amlinellwyd yn adroddiad Hyder bellach yn ddichonadwy. (Cost cyfalaf olynnydd i'r Heulfan - £17.4m ac ailddatblygu Theatr y Pafiliwn - £11.4m).
- Mae'r Cyngor wedi penodi Alliance Leisure Ltd fel 'Partner Datblygu' sy'n barod i helpu datblygu ac ariannu'r cynllun newydd. Fodd bynnag, bydd ffocws unrhyw fuddsoddiad yn llwyr ar yr hyn gaiff ei ystyried yn briodol a fforddiadwy.
- Mae Cynllun Darparu Y Rhyl yn Symud Ymlaen wedi'i ddatblygu a dyma bellach yw'r 'gyrrwr' ar gyfer adfywio'r llain arfordirol cyfan. Mae'r weledigaeth yn cynnwys darparu cyfleusterau cyflenwol sy'n ychwanegu gwerth at, ac yn gwella, apêl fasnachol y cynllun datblygu economaidd - ni ddylid datblygu prosiectau ar wahân. Dyma yn wir yw ethos yr ymagwedd gydweithredol a fabwysiadwyd rhwng Hamdden ac Adfywio.



### 4.3 Y cynnig hamdden dyfrol i'r dyfodol – lleoliad

Mae nifer o opsiynau o ran lleoliad wedi'u hystyried ac yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, mae'r safle sy'n cael ei ffafrio wrth ymyl y pwll padlo presennol a'r Twr Awyr. Mae'r lleoliad yn cynnig nifer o fanteision gan gynnwys:

- Costau is (oherwydd rhesymau technegol) na lleoliadau eraill;
- Galw isel am adleoli tenantiaid neu symud defnydd presennol o'r safle;
- Gweddau gyda strategaeth Y Rhyl yn Symud Ymlaen ar gyfer creu 'Parth Adloniant' yn y lleoliad hwnnw;
- Creu cyrchfan newydd a denu pobl yn agos i Ganol y Dref;
- Creu ysgogiad ar gyfer buddsoddiad sector preifat pellach ym Mhentref y Plant (bwytaï) ac ar floc Rhodfa'r Gorllewin gyferbyn;
- Creu cyfle i ymgorffori gweithrediad pwll padlo'r plant a Thwr yr Awyr o fewn y cynnig dyfrol ehangach. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried gwella trefniadau mynediad ac oriau agor.

O ganlyniad i'r cynigion datblygu yn yr adroddiad hwn, bydd y potensial ar gyfer buddsoddiad sector preifat pellach yn cael sylw manwl yng ngham 2 o'r cynllun gweithredu sy'n cael ei grynhoi ym mharagraff 4.12.

### 4.4 Y cynnig hamdden dyfrol i'r dyfodol – briff dylunio

Mae angen penderfynu ar gynnwys y cynnig hamdden dyfrol newydd er mwyn llywio'r briff dylunio a dichonoldeb yr achos busnes. Mae angen iddo fod yn gyfleuster eiconig unigryw, a fydd yn ychwanegu'n sylweddol at adfywiad Rhyl ac yn denu busnes newydd.

Mae'r gofynion cyffredinol i'r cyfleuster newydd – rhywbeth i gymryd lle'r Heulfan, gan gynnwys cyfleusterau dyfrol hamdden a rhai mwy ffurfiol ynghyd â mannau iechyd, ffitrwydd, arlwyo a siopau – i'w gweld yn **ATODIAD E**.

Mae Alliance Leisure wedi comisiynu bras gynlluniau ac mae delweddau gweledol o ddyluniad y Ganolfan Ddyfrol ynghyd â chostau dangosol i'w gweld yn **ATODIAD C**.

### 4.5 Opsiynau ar gyfer yr Heulfan i'r dyfodol

Ystyriwyd dau opsiwn fel rhan o'r gwaith dichonoldeb cychwynnol; fodd bynnag, yr opsiwn a argymhellir o ganlyniad i'r gwaith hwn yw dymchwel yr adeilad a thirlunio'r safle gyda llwybrau yn cysylltu'r maes parcio presennol gyda'r Theatr, neu chwilio am ddatblygiad gwesty neu ddatblygu maes parcio newydd.

Bydd symud y Ganolfan Ddyfrol o'r lleoliad presennol ger y Pafiliwn yn creu manteision:

- Ni fydd unrhyw wrthdaro o ran sŵn, arogl, delwedd;
- Bydd modd ailfodelu'r Pafiliwn fel adeilad amlwg ac unigryw, gydag 'ymdeimlad o le' a delwedd annibynnol yn creu buddion o ran cysylltiadau cyhoeddus;
- Bydd modd rheoli'r Pafiliwn yn fwy effeithlon – e.e. arbedion gyda gwasanaethau gwresogi a goleuo;
- Gellid defnyddio'r tir fydd yn cael ei ryddhau ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn cyd-fynd yn well gyda'r Pafiliwn, h.y. gwesty.
- Byddai cadw'r adeilad yn tynnu oddi wrth y cynnig newydd i ganol y dref a byddai'n cyfyngu ar gyfleoedd i wella delwedd y Pafiliwn.

#### 4.6 Theatr y Pafiliwn

Mae angen lefel uchel o gymhorthdal cyhoeddus ar Theatr y Pafiliwn yn flynyddol. Heb yr Heulfan, mae'n bosibl creu mwy o argraff unigryw, a gyda gwelliannau o ran rheoli a marchnata ynghyd â datblygu marchnadoedd cynhadledd/busnes newydd, bydd gwelliannau masnachol yn siŵr o ddilyn.

Ynghlwm, ceir crynodeb o'r adroddiad dichonoldeb yn **ATODIAD B** yn ogystal â brasluniau a delweddau gweledol o'r gwelliannau i Theatr y Pafiliwn ynghyd â chostau dangosol – **ATODIAD C**.

Bydd y Pafiliwn arfaethedig newydd ar ei newydd wedd yn cynnwys:

- Mynedfa a ffasâd newydd;
- Gwell defnydd o'r gofod mewnol i gynyddu hyfywdra masnachol ac opsiynau ar gyfer cynadledda;
- Moderneiddio cyfleusterau cyhoeddus gwasanaethau i gwsmeriaid.

#### 4.7 Dyfodol Canolfan Hamdden Y Rhyl

Mae'r cynlluniau ariannol a'r modelu busnes i'r Cynnig Dyfrol a Ffitrwydd newydd yn tybio y bydd pwll presennol y Ganolfan Hamdden yn cau.

Mae'r Pwll yn 30 oed a bydd yn dod i ben ei fywyd strwythurol cyn hir. Dylai datblygiad y cynnig dyfrol a hamdden newydd lywio dyfodol yr adeilad hwn. Dylai unrhyw waith a wneir yn y dyfodol ar y Ganolfan Hamdden bresennol:

- Gael ei ystyried yng nghyd-destun yr Ysgol newydd – gan ystyried y cynlluniau cyfredol mewn perthynas â mannau ar gyfer chwaraeon/Addysg Gorfforol/neuaddau/drama/gweithgareddau corfforol ar y campws newydd – er mwyn sicrhau'r ateb safle cyfan mwyaf cost effeithiol;
- Gael ei gynllunio i beidio â chystadlu gyda hyfywdra masnachol y Cynnig Dyfrol a Ffitrwydd newydd ond yn hytrach i wasanaethu Coleg/Ysgol ac anghenion chwaraeon lleol.

#### 4.8 Y Cynllun Rhyl yn Symud Ymlaen ehangach ac ystyriaethau eraill

Bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth bellach i'r materion canlynol:

- Ble/sut i adleoli'r parc sglefrio i wireddu'r cynnig hamdden dyfrol newydd;
- Opsiynau ar gyfer datblygu gwesty newydd naill ai yn lle'r Heulfan neu ar ochr arall y Theatr, a allai o bosibl godi cyfalaf a fyddai'n helpu i ariannu'r rhaglen;
- Sut i wella'r maes parcio tanddaearol, yn enwedig y cysyniad o greu mynedfa newydd i gerbydau yn y man lle mae'r cyfleusterau i'w datblygu yn hytrach nag ar ben arall y parc;
- Buddsoddiad yn Crescent Road fel maes parcio yn hytrach nag ailddatblygiad er mwyn gwneud iawn am golli lle parcio ger y Twr Awyr, ynghyd â'r galw cynyddol fydd am barcio yn yr ardal yn dilyn creu'r cyfleusterau newydd.

Er mwyn gwneud yn fawr o'r weledigaeth a'r potensial i Lain Arfordirol Y Rhyl, mae yna achos dros sicrhau ymagwedd reolaethol fwy pwrpasol a chyfannol i'r cynnig hamdden sy'n cael ei gefnogi gan Y Rhyl yn Symud Ymlaen - mae ymagwedd fwy cydweithredol rhwng Hamdden ac Adfywiad eisoes wedi profi i fod yn sylfaen llwyddiannus i'r prosiect dichonoldeb hwn.

#### 4.9. Y Nova

Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiynau ar gyfer Y Nova – pwrpas a sail resymegol eglur a nodedig/cyflenwol i lywio dyluniad y cynnig i'r dyfodol. Bydd hyn yn destun adolygiad penodol yng Ngham 2 o'r Cynllun Prosiect a fydd yn adrodd nôl ym Mawrth 2013.

Daeth adolygiad cychwynnol o'r cyfleuster gan Alliance Leisure i'r casgliad bod y cyfleuster wedi dyddio ond bod lle i addasu rhai o'r cyfleusterau i wasanaethu marchnad leol ym Mhrestatyn.

Fodd bynnag, ni ddylid ailddatblygu'r Nova mewn unrhyw fodd a fydd yn tanseilio llwyddiant masnachol y cynnig dyfrol newydd i Ffrynt Rhyl.

#### 4.10 Y Twr Awyr

Ni all y Twr Awyr weithredu fel reid oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Tra bod ei ddyfodol yn ystyriaeth allweddol, mae angen gwaith brys i sicrhau bod y strwythur yn ddiogel. Byddai cynnal gwaith o'r fath yn sicrhau bod y strwythur yn aros yn ei le. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Twr yn cael ei ddefnyddio unwaith yn rhagor fel twr arsylwi, ond nid yw hynny'n golygu na fyddai modd ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol. Amcangyfrifir na fyddai costau'r gwaith brys hwn yn fwy na £35,000 . Dyma fraslun o'r gwaith:

- Tynnu'r Gondola a metel lluddedig rhydd. £10k.
- Sefydlogi'r gwaith gyda metel pellach dros y breichiau sefydlogi presennol. £12k.
- Tynnu'r ceblau codi o ganol y twr awyr. £13K.

Mae'r twr hefyd yn cael ei ddefnyddio fel plattform ar gyfer antenau ffonau symudol. Mae'r gofod hwn yn cael ei rentu i nifer o gwmnïau sydd wedi nodi y byddent yn barod i gyfrannu tuag at y gwaith. Byddai hynny yn lleihau'r gost i'r Cyngor. Mae posibilrwydd hefyd y gellid codi'r taliadau rhent i'r cwmnïau hyn unwaith bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Mewn perthynas â dyfodol Y Twr Awyr, mae papur opsiynau diweddar, **ATODIAD D**, yn ffafrio cadw'r Twr fel tirnod arbennig. Dylid rhoi ystyriaeth i'r defnydd a wneir ohono yn y dyfodol er mwyn ei ddatblygu fel atyniad gweledol. **ATODIAD C**. Dylai hyn hefyd gynnwys sut y gellir ymgorffori'r Twr Awyr ar ei newydd wedd yn y cynlluniau ar gyfer yr adeilad dyfrol newydd yn nhermau cyllid, rheolaeth a gweithrediad.

#### 4.11 Modelau Gweithredu i'r Dyfodol

Mae trafodaethau cychwynnol wedi digwydd mewn perthynas â strategaeth adael i'r Ymddiriedolaeth yn Y Rhyl er mwyn rhoi mwy o ffocws ar Y Nova. Bydd y bartneriaeth hon rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Ymddiriedolaeth yn esblygu i 'fwrdd cysgodol' newydd i arolygu'r newidiadau angenrheidiol. Yn ystod datblygiad Cam 3 o'r prosiect, rhoddir

ystyriaeth bellach i opsiynau gweithredu, h.y. mewnol; Ymddiriedolaeth; Partner Preifat.

#### 4.12 Rhaglen Ddarparu

Ceir rhaglen fanylach ar gyfer darparu'r camau unigol ynghlwm fel **ATODIAD G**. Fodd bynnag, dyma grynodeb:

Camau	Gweithredoedd	Amserlenni	Costau	Cost Risg
Cam 1 Cwblhawyd	<b><u>Astudiaeth</u></b> <b><u>Dichonoldeb</u></b> <b><u>Cychwynnol</u></b> Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen i Gam 2.	Hydref – Rhagfyr 2012	JS £3500 AL £15,000  <b>Cyfanswm y Gost - £18,500</b>	<b>£3,500</b>
Cam 2 l'w gymeradwyo gan y Cabinet Ionawr 2013	<b><u>Achos Busnes a Chyfiawnhad</u></b>  <b>Cadarnhau'r Briff Dylunio</b>  <b>Adolygiad manwl yn arwain at benderfyniad i symud ymlaen at gyflwyno cais cynllunio neu i roi'r gorau i'r gwaith.</b>  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad o'r achos busnes</li> <li>• Gwerthusiad o gostau adeiladau a amcangyfrifir</li> <li>• Ystyriaeth o'r risgiau datblygu</li> <li>• Asesiad o botensial ariannu: allanol, 'mewnol' a masnachol</li> </ul> <b>Cam 2 Penderfyniadau'r Cyngor i symud ymlaen i'r dylunio manwl hyd at gynllunio a darparu</b>	<b>Ionawr – Mawrth 2013</b>          <b>Ebrill 2013</b>	Dyluniad y maes parcio a'r parth cyhoeddus £25,000  Costau eraill, cynlluniau busnes a datblygu, briff dylunio a holl werthusiadau – hyd at £20,000  Adroddiad geodechnegol ac asesiad risg o lifogydd hyd at £10,000  <b>Cyfanswm y Gost - £30,000</b> (£55,000 – llai grant allanol £25,000)	<b>£30,000</b>  <i>(D.S. Disgwylir £25K o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at waith dichonoldeb a dylunio i Welliant Maes Parcio Crescent Road a dylunio cysyniad i greu parth cyhoeddus o ansawdd dda rhwng y Ganolfan Ddyfriol arfaethedig a Phentref y Plant a gwelliant/mynedfa newydd i'r maes parcio tanddaearol)</i>
Cam 3 D.S. Bydd penderfyniad gan y Cabinet i symud ymlaen i'r cam hwn ond yn digwydd ar ôl i Gam 2 gael ei gwblhau'n	<b><u>Dylunio Manwl hyd at Ddarparu</u></b> Yn amodol ar adolygiad positif o'r achos busnes a'r asesiad risg, bydd y datblygiadau yn cael eu paratoi ar gyfer ystyriaeth gan Gynllunio.	<b>Ebrill – Medi 2013</b>	Cynlluniau datblygu a datblygiadau dylunio £8,000 (Just Solutions)  Costau dylunio hyd at £450,000 (Alliance) D.S. Yn ôl telerau'r fframwaith cytundeb gydag Alliance Leisure, bydd Alliance	Os nad yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn atebol am unrhyw gostau a gododd.

<b>foddhaol</b>	<b>Cam 3</b> <b>Penderfyniadau Allweddol –</b>  <b>Penderfyniadau Ariannu</b> <b>Penderfyniadau gan y Cyngor i symud ymlaen i Gynllunio a thu hwnt i'r Penderfyniad Cynllunio</b>	<b>Medi</b>  <b>Rhagfyr/ Ionawr 2014</b>	yn gyfrifol am gostau cychwynnol, ac yn eu hadennill trwy gytundeb ariannol pan fydd yr adeilad wedi'i gwblhau.  <b>Cyfanswm y Gost £458,000</b>	
<b>Cam 4</b>	<b><u>Darparu</u></b> 1. Adeiladu Canolfan Ddyfrol newydd 2. Ail-ddyluniad a chread y Twr Awyr ar ei newydd wedd 3. Dymchwel yr Heulfan 4. Gwelliannau i'r Pafiliwn 5. Gwelliannau i'r Parth Cyhoeddus a meysydd parcio 6. Gwelliannau i'r Nova (i'w pennu yn dilyn adolygiad cam 2)	<b>2014/2015</b>	<b>£15,000,000 - £18,000,000 amcangyfrifon dangosol</b>	
<b>Cam 5</b>	<b><u>Agor a Gweithredu</u></b>	<b>2015/2016</b>		

#### 4.13 Rheoli prosiect

Bydd cam nesaf y prosiect yn cael ei arwain ar y cyd gan Reolwr Y Rhyl yn Symud Ymlaen a'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata gyda chefnogaeth Ymgynghorwyr Prosiect ac Alliance Leisure. Bydd hynt y prosiect yn cael ei fonitro drwy'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig gyda Methodoleg Rheoli Prosiect Sir Ddinbych.

#### 4.14 Trefniadau llywodraethu

Caiff Bwrdd Prosiect ei sefydlu gydag aelodaeth briodol o blith uwch reolwyr, y cabinet a chynrychiolaeth leol.

#### 4.15 Casgliad

Dyma brosiect allweddol i ysgogi adfywiad y llain arfordirol, a disgwylir y bydd yn gatalydd ar gyfer trawsffurfio'r llain arfordirol a chanol y dref yn ogystal ag adfywio'r cynnig hamdden i Rhyl a Phrestatyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig er llwyddiant y prosiect bod y gyfres gymhleth o brosiectau hamdden yn cael ei symud ymlaen. Yn sgil hynny, daw set gymhleth o faterion i'w rheoli a dylid eu dwyn ymlaen mewn camau arwahanol i'w rheoli'n hylaw.

### 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

## **Blaenoriaeth – Datblygu'r Economi Lleol**

Bydd y cyfleusterau arfordirol yn lleoliad i swyddi sy'n bod eisoes a swyddi newydd. Bydd y cynigion hefyd yn creu delwedd llawer mwy positif o Rhyl, yn hybu hyder y sector preifat a buddsoddiad gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a busnes.

## **Blaenoriaeth – Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid**

Bydd y cynnig hwn yn moderneiddio elfennau allweddol o bortffolio eiddo hamdden y Cyngor ac yn darparu adeiladau newydd neu rai a adnewyddwyd yn sylweddol a fydd yn lleihau'r costau gweithredol a rheoli presennol.

### **6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

O fis Hydref 2012, mae'n rhaid i gyflogwyr, yn gyfreithiol, gofrestru aelodau cymwys o staff mewn cynllun pensiwn cymwys. Mae aelodau cymwys o staff yn rhai rhwng 22 oed ac oedran pensiwn statudol ac yn ennill mwy na £8,105 y flwyddyn. Mae Aelodau Etholedig yn cael eu heithrio. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Athrawon yn bodloni'r amodau ar gyfer bod yn gynllun pensiwn cymwys.

O dan y rheoliadau cofrestru'n awtomatig, gall cyflogwyr ofyn am gyfnod pontio cyn rhag gweithredu llawn tan 1 Hydref 2017. Dim ond aelodau cymwys o staff ar y diwrnod cychwyn o 1af Mai 2013 a gai eu heffeithio. Yn seiliedig ar ein hystadegau presennol, mae 467 o aelodau cymwys o staff yn y Cyngor ond mae'r rhan fwyaf wedi dewis optio allan. Daw llai na 2% o'r aelodau staff yn rhai cymwys yn ystod y flwyddyn nesaf oherwydd eu hoedran. Mae'r cyfnod pontio'n golygu na fyddai'r cyngor yn eu cofrestru'n awtomatig tan 2017 – er y gall yr aelodau hynny o staff ddewis ymuno naill ai â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu â'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar unrhyw adeg.

Bydd aelodau o staff sy'n dod yn gymwys o'r *newydd* ôl y diwrnod cychwyn yn cael eu cofrestru ar adeg dod yn gymwys ac ni fydd gohirio tan Hydref 2017. Golyga hynny y bydd aelodau newydd o staff, neu'r rhai sy'n dod yn gymwys oherwydd eu hoedran neu'u henillion, yn cael eu cofrestru'n awtomatig ryw adeg o fis Mai 2013 ymlaen.

Ar lefel genedlaethol, mae'n amlwg yn fanteisiol annog pobol i ddarparu ar gyfer eu hymddeoliad trwy'u cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn. Fodd bynnag, dylid ystyried goblygiadau ariannol o ran yr aelodau hynny o staff nad ydynt ar hyn o bryd yn cyfrannu i gynllun pensiwn. Ar gyfartaledd, bydd rhwng 4.4% - 5.5% yn cael ei dynnu o'u cyflog (ar ôl rhyddhad treth) a hynny mewn cyfnod pan mae cyflogau'n cael eu rhewi. Felly, gallai rhai deimlo fod hyn yn fuddsoddiad na ellir ei fforddio a dal i optio allan.

Bydd cofrestru awtomatig yn rhoi pwysau ariannol ar y cyngor hefyd ar adeg pan mae cyllidebau eisoes o dan bwysau. Ar hyn o bryd, mae'n costio i'r cyflogwr 11.8% o gyflog gros aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a 14.1% y rhai yng Nghynllun Pensiwn Athrawon. Mae'n anodd gwybod yn union faint o gostau ychwanegol fydd yn disgyn ar y cyngor o ganlyniad i gofrestru'n awtomatig - mae'n dibynnu faint o bobl fydd yn penderfynu aros yn y cynllun pensiwn ar ôl eu cofrestru a faint o gyflog y maen nhw'n ei ennill - ond bydd defnyddio cyfnod pontio'n lleihau'r effaith ariannol am ychydig.

Bydd gweithredu'r rheoliadau cofrestru awtomatig hefyd yn effeithio ar staff llanw a staff achlysurol nad ydynt yn dysgu, er bod yr effaith llawn ac ymateb arfaethedig y cyngor yn dal i gael ei asesu. Yn hanesyddol, ni fyddai'r rhai â

chontract cyflogaeth o lai na thri mis yn cael ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r rheolau hynny wedi newid ers 1 Hydref 2012 ac mae gweithwyr llanw / achlysurol yn gallu *dewis*, erbyn hyn, ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. O ganlyniad, ysgrifennwyd yn ddiweddar at holl staff llanw / achlysurol (tua 1,200 o bobl) yn gofyn a hoffon nhw ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae tua 40 o bobl wedi dewis gwneud hynny. Er hynny, nid yw rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn caniatáu i staff llanw / achlysurol cael eu *cofrestru'n awtomatig* os yw eu contract cyflogaeth am lai na thri mis. Ond, i gymhlethu pethau ymhellach, mae rheoliadau cofrestru'n awtomatig yn dal yn berthnasol os daw gweithiwr llanw / achlysurol yn aelod cymwys o staff oherwydd enillion a / neu oedran. Gallai hynny olygu y byddai'n rhaid i'r cyngor asesu, bob tro y bydd person yn gweithio i'r cyngor, a ddaw'r person hwnnw'n gymwys i gael ei gofrestru awtomatig ac, os daw, wneud darpariaethau i'w gofrestru'n awtomatig mewn cynllun heblaw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, neu eu gwahodd i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Gallai beichiau gweinyddol hyn fod yn eithaf trwm ac mae dewisiadau i liniaru'r effaith yn cael eu hystyried. Mae hynny'n cynnwys adolygu natur y contractau llanw / achlysurol neu wneud defnydd o'r hawl i ohirio am gyfnod o hyd at 3 mis (fel sy'n cael ei ganiatáu o dan y rheoliadau) i asesu cymhwysedd dros gyfnod hirach yn hytrach na seilio penderfyniadau ar un cyfnod o gyflogaeth yn unig.

Pan fydd cyflogwr yn cofrestru aelod o staff yn awtomatig, mae'n rhaid i'r cyflogwr **beidio â** sôn am unrhyw ddewis o sut i optio allan o'r cynllun (mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi datgan y gallai hynny gael ei ystyried fel anogaeth i beidio ag ymuno â'r cynllun a gallai'r cyflogwr gael ei gosbi'n ariannol).

Disgwylir y bydd nifer o weithwyr a fydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig yn optio allan o'r cynllun. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi amcangyfrif y bydd rhwng 20% - 40% o bobl yn genedlaethol yn optio allan. Mae Cymdeithas Genedlaethol Cronfeydd Pensiwn wedi amcangyfrif mai 33% fydd y ffigwr. Dengys ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai 65% o ymatebwyr yn bendant neu'n debyg o aros wedi'u cofrestru, ac y byddai 20% yn debyg neu'n bendant yn optio allan. Mae'r mwyafrif o ymgynghorwyr ariannol corfforaethol yn rhagweld y byddai bron i 33% yn optio allan.

Mae'n amhosibl darogan yn gywir beth fydd costau ychwanegol cofrestru awtomatig, ond mae'n amlwg, wrth ddefnyddio'r cyfnod pontio a ganiateir, y bydd y cyngor yn gallu gohirio'r gost lawn am hyd at bedair blynedd.

I grynhoi, mae'r hyn a wnaed hyd yma a'r hyn y bwriedir ei wneud o hyn ymlaen fel a ganlyn:

Dyddiad	Gweithredu
Hydref 2012	Newid yn Rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – 1,200 o weithwyr achlysurol / llanw yn cael gwahoddiad i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
Mai 2013	Dyddiad Cychwyn – Gweithredu Cofrestru'n Awtomatig



Mai 2013	Defnyddio'r cyfnod pontio ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi optio allan o gynllun penswn.
Mai 2013	Hysbysu'r gweithwyr bod cyfnod pontio wedi'i ddefnyddio, ei gwneud yn glir bod hawl i ddewis optio mewn i gynllun penswn.
O fis Mai 2013	Gweithwyr cymwys newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig.
Hydref 2017	Cofrestru'n awtomatig yr holl weithwyr a oedd yn dod o dan y cyfnod pontio.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu gwasanaethau rhestr gyflog i sefydliadau eraill a fydd hefyd yn cael eu heffeithio gan y newid yn y rheoliadau. Mae manylion y rhain yn Atodiad A.

### **5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn ymateb i newid mewn rheoliadau cyflogaeth.

### **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd cofrestru'n awtomatig yn cynyddu cyfraniadau penswn y cyflogwr wrth i ragor o bobl ddod yn aelodau naill ai o gynllun Llywodraeth Leol neu gynllun Athrawon. Bydd yn ychwanegu at gostau cyflogaeth ac felly bydd pob gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion, yn cael ei effeithio. Bydd defnyddio cyfnod pontio'n gohirio peth o'r cynnydd mewn costau. Amcangyfrifir y bydd y cynllun hwn yn costio tua £580,000 y flwyddyn i'r Cyngor o 2017.

Mae Atodiad B yn cynnwys manylion tebygol y goblygiadau ariannol.

Mae system restr gyflog y Cyngor yn cael ei datblygu i hyrwyddo cofrestru'n awtomatig ac mae costau hynny'n debyg o fod tua £25,000 – £30,000. Bydd yna broblemau gweinyddol ychwanegol wrth gofrestru awtomatig ond bydd y llwyth gwaith ychwanegol yn cael ei gyfarfod o'r cyllidebau presennol.

### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad?**

Nod y cynllun yw cael pob aelod o staff i dalu am bensiwn. Yn fras, bydd hynny o fudd tymor hir i bob aelod o staff. Yr anfantais yn y tymor byr yw bod yn rhaid cyfrannu i'r gronfa bensiwn. Mae pob aelod o staff perthnasol yn gallu dod yn rhan o gynllun penswn y Cyngor os yw'n dymuno. Yn yr un modd mae unrhyw aelod o staff yn gallu optio allan ar unrhyw adeg o dan y cynigion newydd. Golyga hynny y gall unrhyw berson sy'n teimlo o dan anfantais ddewis peidio â bod yn aelod. Dengys ymchwil y bydd canran cymharol uchel o staff (yn nodweddiadol 66%) yn aros i mewn unwaith y maen nhw wedi'u cofrestru'n awtomatig.

Mae pawb sy'n cael eu heffeithio un ai wedi cael, neu bydd yn derbyn, llythyr yn egluro'r newidiadau ac yn eu gwahodd i ymuno'n wirfoddol.

### **8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Ymgynghorwyd ag Awdurdodau Lleol eraill er mwyn cael gwybodaeth ar sut y mae awdurdodau eraill yn penderfynu symud ymlaen.

Ymgynghorwyd â sefydliadau cyflogwyr allanol sy'n defnyddio Gwasanaeth Rhestr Gyflog y Cyngor.

### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim ond amcangyfrif effeithiau llawn y newidiadau mewn rheoliadau pensiwn y gellir ei wneud ar hyn o bryd. Bydd yr union gostau'n yn dibynnu ar faint o bobl fydd naill ai'n dewis ymuno neu'n cael eu cofrestru'n awtomatig mewn cynlluniau pensiwn a faint fydd eu cyflog. Bydd y costau ychwanegol parhaus o ganlyniad i'r newidiadau hyn yn bwysau ariannol ar y gwasanaethau.

### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y perygl pe na byddai'r Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yw y gallai gael ei ddirwyo gan y Rheolydd Pensiynau (diryw uchaf o £10,000 y diwrnod).

### **11. Yr Hawl i Benderfynu**

Yn gweithredu o fewn Rheoliadau Deddfwriaeth Llywodraeth Statudol (Deddf Pensiynau 2008) sy'n caniatáu cyfnod gohirio, felly mae angen penderfyniad gan y cyflogwr.

## Atodiad A

### **Sefydliadau eraill yn defnyddio Gwasanaeth Rhestr Gyflog y Cyngor**

Mae'r sefydliadau canlynol yn defnyddio gwasanaeth rhestr gyflog y Cyngor

Hamdden Clwyd, Asiantaeth Wirfoddol Sir Ddinbych, Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, Scala, Menter Iaith, Cadwyn Clwyd, ECTARC, Siop Cyngor ar Fudd-daliadau, Asiantaeth Menter Sir Ddinbych, Cynghorau Tref, Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau cofrestru awtomatig drwy ddefnyddio cynlluniau Llywodraeth Leol ac Athrawon yn unig ac felly does dim rhaid chwilio am ddarparwyr pensiynau eraill. Byddai'n rhaid i gyflogwyr eraill sy'n defnyddio gwasanaeth rhestr gyflog y cyngor ganfod darparwyr pensiynau eraill, oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw eu staff yn gymwys i ymuno â'r un o gynlluniau pensiwn y cyngor. Os bydd y sefydliadau eraill hyn yn dewis gohirio cofrestru awtomatig tan 1 Chwefror 2016 (dyddiad gwahanol i ddyddiad y cyngor o 2017 oherwydd maint y sefydliadau), yna bydd y cyngor yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau restr gyflog, o leiaf hyd at y dyddiad hwnnw. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau'n dweud y byddant yn gohirio ac yn dal i ddymuno defnyddio gwasanaethau rhestr gyflog y cyngor.

Byddai darparu gwasanaeth ble mae'r Cyngor yn gorfod cynnig nifer o ddarparwyr pensiynau i'r sefydliadau eraill yn cynyddu'r baich gweinyddol a byddai'n golygu cost ychwanegol oherwydd y gwaith rhaglennu a fyddai'i angen i gyflawni'r gofynion penodol hynny.

## Atodiad B – Amcangyfrif o Gostau'r Cynllun

Yn 2011 / 2012 talodd y Cyngor y costau pensiwn cyflogwr canlynol:

- Pensiwn Llywodraeth Leol (gan gynnwys costau atebolrwydd y gorffennol) £12.5 miliwn
- Pensiwn Athrawon £4.7 miliwn

Disgwylir y bydd cyfraniad y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol yn codi o 0.6% o 2014 / 15 o ganlyniad i adolygiad diweddaraf actwari'r gronfa pensiwn. Bydd hynny'n cynyddu costau'r cyflogwr o £60,000 - £65,000 y flwyddyn.

Mae gan rai gweithwyr mwy nag un swydd gyda'r cyngor ac felly dangosir isod nifer y 'swyddi' ym mhob cynllun.

Manylion	Nifer y Swyddi
Cynllun Pensiwn Athrawon	1,176
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	3,390
Nifer yn Optio Allan	821
Llanw / Achlysurol (nad oedd yn cael eu caniatáu o'r blaen)	1,310

### Effaith Posibl Heb Gyfnod Pontio

Mae'r tabl isod yn dangos beth allai'r gost ychwanegol, flynyddol, fod petai'r rhai sydd wedi optio allan ar hyn o bryd yn cofrestru'n awtomatig h.y. pe na byddai'r cyfnod pontio'n cael ei ddefnyddio. Yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch faint o bobl fydd yn dal yn y cynllun a chyfartaledd eu cyflog, yna, gallai'r costau i'r cyflogwr gynyddu o £548,000 y flwyddyn. Nid yw'r ffigur hwn yn un cadarn, o bell ffordd. Mae nifer y staff cymwys a ffigurau eu cyflog pensiynadwy yn gywir hyd at ddiwedd mis Tachwedd ond gallai hyn newid ac mae'r rhagdybiaeth y bydd 2/3 (66%) o staff cymwys yn parhau yn y cynllun yn seiliedig ar ymchwil allanol yn unig.

Grŵp Optio Allan	Nifer ar hyn o bryd	Staff Cymwys	2/3 yn aros	Cyfartaledd Cyflog	Cyfraniadau'r Cyflogwr %	Costau Pensiwn Ychwanegol
Llywodraeth Leol	708	412	275	£16,063	11.80%	£521,244
Athrawon	36	34	23	£27,975	14.10%	£90,722
Athrawon (Llanw)	77	21	14	£19,508	14.10%	£38,508
<b>Cyfanswm</b>	<b>821</b>	<b>467</b>	<b>312</b>			<b>£650,474</b>
					<b>Arbedion</b>	<b>(£101,917)</b>

					Yswiriant Cenedlaethol	
						<b>£548,557</b>

Byddai effeithiau'r uchod ledled y prif sectorau gwasanaeth fel a ganlyn:

Maes Gwasanaeth	Costau Gros	Arbedion Yswiriant Cenedlaethol	Costau Net
Ysgolion	£325,749	(£51,714)	£274,035
Gofal Cymdeithasol	£72,886	(£11,443)	£61,443
Gwasanaethau Eraill:	£251,839	(£38,760)	£213,079
<b>Cyfanswm</b>	<b>£650,474</b>	<b>(£101,917)</b>	<b>£548,557</b>

Os defnyddir cyfnod pontio, bydd yn rhaid i'r cyngor ysgrifennu i roi gwybod i'r holl bobl uchod. Mae'r rheoliadau'n gofyn yr adeg hynny am atgoffa pobl fod cyfle i optio i mewn i'r cynllun. Mae'n anodd rhagweld faint o aelodau o staff a fyddai'n optio i mewn ac mae'n anodd, felly, cyfrifo'r effaith. Fodd bynnag, gallai fod fel a ganlyn:

Ystod	20%	40%	66.7%
Ysgolion	82,382	164,764	274,035
Gofal Cymdeithasol	18,433	36,866	61,433
Arall	63,198	126,396	213,079
<b>Cyfanswm</b>	<b>164,013</b>	<b>328,026</b>	<b>548,557</b>

O gofio fod y rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu heffeithio wedi optio allan o'r cynllun pensiwn o'r blaen, efallai y gellir rhagdybio y byddai'r nifer a fyddai'n dewis ymuno tua gwaelod yr ystod, rhwng 20-40%. Dim ond ychydig (llai na 2%) fydd yn dod yn gymwys oherwydd oedran ac ystyrir mai ychydig o staff llanw achlysurol a fydd yn dewis ymuno neu'n dod yn gymwys i gofrestru'n awtomatig. Dylai'r rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer 2013 / 14 felly fod yn yr ystod £164-£328k.

**Adroddiad i'r:** CABINET

**Dyddiad y Cyfarfod:** Ionawr 24<sup>ain</sup>, 2013

**Prif Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill

**Prif Swyddog:** Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau

**Teitl:** Cyllideb 2013/14

**1 Ynglŷn â be mae'r adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn manylu ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2013/14.

**2 Be ydi'r rheswm am greu'r adroddiad hwn?**

Mae rheidrwydd cyfreithiol ar y Cyngor i osod cyllideb gytbwys y mae modd ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac i osod lefel canlyniadol y Dreth Cyngor i ganiatáu biliau i gael eu hanfon at breswylwyr.

**3 Be ydi'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cabinet yn cefnogi cynlluniau'r gyllideb ar gyfer 2013/14 fel ag y gwelir yn yr atodiadau, ac yn argymhell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.

3.2 Bod y Cabinet yn argymhell y cynnydd canlyniadol o 2.0% yn lefel y Dreth Cyngor ar gyfer 2013/14 i'r Cyngor llawn.

**4 Manylion yr adroddiad**

4.1 Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad terfynol yng nghanol mis Rhagfyr. Fe ddangosodd hyn y grant a dderbyniai pob Cyngor. Cynyddodd grant Sir Ddinbych o 1%. Mae hyn yn is na'r disgwyl gan i'r gweinidog, ar y funud olaf, gyhoeddi toriad haenen uchaf o £10m o'r setliad llywodraeth leol. Fe olygodd hyn symud £300mil o grant Sir Ddinbych.

4.2 Dangosodd y setliad terfynol doriad yn ein cyllid cyfalaf. Fe dorwyd y cyfalaf o 15% (sy'n gyfystyr i oddeutu £900mil) i £4.867m. Mae hyn yn golled sylweddol ar ben y toriad o 27% a gawsom dros y ddwy flynedd diwethaf. Y cyllid cyfalaf cyffredinol ydi'r hyn a ddibynnwn arno er mwyn cynnal gwaith lechyd a Diogelwch, gwaith cynnal a chadw sylweddol ayyb - yn sylfaenol, y gwaith sy'n caniatáu inni gadw'n adeiladau ar waith.

**Rhagdybiaethau'r Gyllideb**

4.3 Mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn parhau'n wael ar gyfer y tymor canolig. Mae'n debygol y bydd setliadau isel a sefyllfa ariannol anodd yn parhau y tu hwnt i dymor y cynllun tair blynedd bresennol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bwysig iawn i Aelodau ystyried golwg hirdymor neu ganolig ar bob cynnig ar gyfer arbedion ac i beidio â cheisio am opsiynau hawdd sy'n cynnig atebion byrdymor.

4.4 Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi rhagdybio'n wreiddiol y byddai cynnydd costau mewn sawl maes. Mae hi bob amser yn anodd rhagweld yn union y newidiadau chwyddiannol mewn cymaint o feysydd

gwariant ac mae'n rhaid i'r Cyngor bob amser fod yn ddoeth gyda'i ragdybiaethau.

#### **Codiadau mewn costau tanwydd ac egni**

- 4.5 Roedd y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer y cynnydd mewn costau egni yn 15%, yn seiliedig ar brofiad blaenorol ynghyd â'r codiadau a gyhoeddwyd yn yr hydref ar gyfer y cyflenwad domestig. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth orau sy gennym ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd costau ein cytundebau egni'n codi o ryw 5%. Serch hynny, roeddem wedi medru lleihau'n defnydd yn sylweddol yn ystod llynedd hefyd, felly fe fydd yr effaith cyffredinol ar y gyllideb yn finimol. Fe ragdybir hefyd y bydd codiad yn y gyfradd o Dreth Garbon a delir.
- 4.6 A derbyn natur ymfflamychol y farchnad egni, bydd y CATC yn parhau i ragdybio codiadau uwch yn y blynyddoedd i ddod ac fe ddiwygir hyn wrth inni weithio trwy'r broses gyllidebol pob blwyddyn.

#### **Cyflog a Statws Sengl**

- 4.7 Fe wnaethpwyd rhagdybiaeth ar gyfer codiad mewn cyflog staff ar gyfer 2013/14. Fe ragdybiwyd y codiad yng ngoleuni unfannu cyflogau am dair blynedd, chwyddiant yn rhedeg ar oddeutu 2.7%, codiadau yng nghyfraniadau pensiwn a gostyngiadau mewn amrywiol daliadau lles.
- 4.8 Mae'r hinsawdd economaidd wael a chyhoeddiad diweddar y Canghellor y dylai codiadau cyflog y sector gyhoeddus gael eu cyfyngu i gyfartaledd o 1%, ynghyd â setliadau ariannol cyfredol gwael i Gynghorau Lloegr, yn golygu fod codiad cyflog arwyddocaol yn llai tebygol. Fe negodir cyflogau ar lefel y DU ar gyfer Cynghorau. Mae hyn yn golygu y bydd Cynghorau Lloegr yn debygol o wthio am godiad bach iawn mewn costau cyflogau. Mae'r gyllideb yn rhagdybio codiad cyflog o fymryn dros 1%.
- 4.9 Fe fydd hi'n fisoedd lawer cyn y byddwn unrhyw faint yn fwy pendant ynglŷn â chynigion ar gyflogau. Fe ddylwn, felly, gadw'r rhagdybiaeth oddifewn i'r gyllideb. Os bydd y codiad fymryn yn uwch nag 1%, fe fydd cronfa wrth gefn i dalu am hyn. Petai'r codiad fymryn yn llai na'r 1%, byddai'n creu arbediad gyda dau ganlyniad - yn gyntaf, cynhyrchu arian gan y byddai gennym lwfans cyllid ond dim gwariant ac yn ail, ffurfio arbedion ychwanegol ar gyfer 2014/15. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau a oedd gennym yn mynd i mewn i 2012/13. Bydd unrhyw gyllid cyflogau sy'n parhau heb ei wario ar gyfer y naill flwyddyn yn cynhyrchu tanwariant a gaiff ei drosglwyddo i'r gronfa buddsoddi strategol. Fe ragdybiwyd y byddai unrhyw gyllid na chlustnodir yn cael ei gynnwys mewn blynyddoedd i ddod er mwyn lliniaru pwysau yn y dyfodol.
- 4.10 Fe achosodd y cytundeb ar statws sengl 2 faich ariannol i gyllideb y Cyngor. Y cyntaf oedd cynnydd unigryw mewn costau cyflogau wrth i nifer o staff gael eu symud i raddfeydd uwch; a'r ail oedd 'tuedd cynyddol' y graddfeydd hyn. Hynny ydi, staff a fyddai wedi'u penodi ar waelod y raddfa yn symud i fyny i ben y raddfa dros amser. Rydyn ni'n pennu cyllideb i dalu am y 'duedd' hon ac mae disgwyl iddi ei ddyrannu'n llawn i wasanaethau erbyn 2014/15. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn amddiffyn cais cyflog cyfartal gan nifer o staff sy'n honni camwahaniaethu dros gyfnod arwyddocaol. Pe byddai'r Cyngor yn



aflwyddiannus yn ei amddiffyniad, yna fe fydd disgwyl iddo dalu allan swm arwyddocaol o arian i'r rhai sy'n hawlio. Mae darpariaeth wedi'i glustnodi yn benodol ar gyfer hyn.

- 4.11 Mae'r Cyngor hefyd yn bresennol mewn trafodaethau gydag Undebau Llafur i symud y lwfans defnyddiwr car hanfodol oddi wrth staff. Mae cyllideb 2013/14 yn rhagdybio y bydd hyn yn cael ei gytuno a'i gyflwyno'n raddol dros y flwyddyn, gan arbed £200mil yn y flwyddyn gydag arbedion pellach yn 2014/15.

#### **Pwysau Chwyddiannol Eraill**

- 4.12 Fe ragdybir y bydd codiadau canrannol bychain mewn trethi busnes ar gyfer eiddo'r cyngor a phremiwm yswiriant ac ymgodiad chwyddiannol yng nghostau cytundeb Menter Cyllid Preifat (MCP/PFI) y Cyngor. Cyfanswm y rhain ydi £160mil.

- 4.13 Fe ragdybir y bydd gwasanaethau'n llyncu unrhyw bwysau chwyddiannol eraill oni bai i'r rhain gael eu codi'n benodol adeg herio gan y gwasanaethau.

#### **Diogelu ysgolion**

- 4.14 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd ysgolion yn cael diogelu rhag arbedion. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau i ysgolion swm sy gyfwerth ag 1% uwchlaw'r setliad a dderbyniodd LIC. I Sir Ddinbych, mae hynny'n golygu y bydd ysgolion yn derbyn codiad cyllid o oddeutu £1,237mil (2.08%). Allan o hyn, mae'n rhaid iddyn nhw lyncu unrhyw godiadau mewn costau staffio – statws sengl, codiadau cyflog ayyb. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ddiogelu ysgolion llynedd pan dderbyniwyd ganddyn nhw oddeutu £1.2m. Mae'n debygol y bydd y diogelu hyn yn parhau i mewn i 2014/15.

#### **Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 4.15 Yn ychwanegol i'r diogelwch ar gyfer ysgolion, fe ddisgwylir i'r Cyngor ddiogelu a chynyddu cyllidebau Gofal Cymdeithasol o 2.08% (£958mil) ar gyfer y flwyddyn hon yn unig. Allan o hyn, mae'n rhaid i'r gwasanaeth lyncu codiadau cyflog, codiadau mewn ffioedd cartrefi gofal a phwysau eraill.

- 4.16 Fe ddynododd Cyfrifiad 2011 fod nifer sylweddol yn llai o bobl dros oedran 85 nag oedd y Cyngor yn derbyn ariannu ar eu cyfer. Mae hyn yn debygol o arwain at doriad mawr yn ariannu'r Cyngor ar gyfer 2014/15. Mae trafodaethau'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru ond, am y tro, mae adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagdybio y bydd yr ariannu ychwanegol ar gael am un flwyddyn yn unig ac y'i collir yn 2014/15.

- 4.17 Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi bwriadu gwneud arbedion ar gyfer 2013/14 gan fod y diogelu heb ei gyhoeddi'n ffurfiol hyd nes mis Rhagfyr. Mae disgwyl felly i'r gwasanaethau parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd, ond caiff y rhain wedyn eu hail-fuddsoddi nôl yn y gwasanaeth.

- 4.18 Mae diogelu Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn gosod straen ychwanegol ar wasanaethau eraill yn y Cyngor gan fod rhaid iddyn nhw gael hyd i arbedion

ychwanegol i wneud iawn am hyn. Ar gyfer 2013/14 mae rhyw £102m (56%) o'n cyllideb wedi'i ddiogelu.

### **Cynllun Cymorth Treth Cyngor**

4.19 O dan agenda diwygio lles Llywodraeth y DU, mae Budd-dal Treth Cyngor wedi'i ddiodymu a'i ddisodli gan 'Gymorth Treth Cyngor'. Mae hyn wedi golygu trosglwyddo swm o arian i Gynghorau sy tua 10% yn llai na'r lefel a ddarparwyd yn flaenorol. Yna, fe ddyfeisiodd LIC gynllun a gaiff ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Ionawr. Bydd y Cyngor yn derbyn oddeutu £8.3m yn 2013/14, sy tua £1m yn llai na'i wariant yn 2012/13.

4.20 Yn ychwanegol i'r golled hwn, bydd raid i'r Cyngor anfon biliau Treth Cyngor at breswylwyr sy o bosib erioed wedi talu Treth Cyngor o'r blaen. Fe ragwelir y bydd nifer o'r rhain yn peidio â thalu ac felly bydd costau casglu ychwanegol yn cael eu achosi ac fe all fod cynnydd mewn drwgddyledion. Fe fydd darpariaeth drwgddyledion y Cyngor yn cael ei chynyddu o £200mil ac fe ragdybir y bydd y gyfradd casglu yn gostwng o 0.5%.

### **Gweithdai Cyllideb**

4.21 Fe gynhaliwyd dwy rownd o weithdai cyllideb ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr lle gafodd pob aelod gwahoddiad. Fe roddwyd ystyriaeth i dri o feysydd – arbedion, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiadau a lefelau Treth Cyngor posib.

### **Arbedion**

4.22 Mae gwasanaethau wedi cynnig arbedion o fymryn yn llai na £3.1m (fel ag y gwelir yn Atodiad 1). Fe archwiliwyd y rhain mewn manylder gan yr aelodau adeg Herio gan y Gwasanaethau a'u cyflwyno i aelodau yng ngweithdai cyllideb mis Tachwedd. Fe farnwyd fod yr holl arbedion yn ymarferol ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau gan aelodau i unrhyw un o'r cynigion.

### **Blaenoriaethau**

4.23 Ym mis Medi, fe gymeradwyodd yr aelodau'r Cynllun Corfforaethol ynghyd â chyfres o brosiectau. Yna, yn y gweithdai cyllideb, fe ofynnwyd i'r aelodau ystyried sut i ddyrannu cyllid blaenoriaethau i'r prosiectau hyn. Fe ddangosir y rhaniad arfaethedig isod:

Blaenoriaeth	£mil	Pwrpas
Moderneiddio Addysg	200	Buddsoddi cyfalaf
Priffyrdd	100	Buddsoddi cyfalaf
Economi	160	I'w gadarnhau
Moderneiddio	140	I'w gadarnhau
Gofal Cymdeithasol	400	Buddsoddi cyfalaf

4.24 Fe ddyrannir yr arian hwn i brosiectau o'r Cynllun Corfforaethol ac ar sail achosion busnes llawn.

### **Treth Cyngor**

4.25 Fe nododd aelodau hefyd y math o gynnydd mewn Treth Cyngor y dymunent nhw ei weld. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i nifer o opsiynau fel ag y dangosir isod. Cynnydd o 2.75% oedd y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer

dibenion cynllunio ariannol. Amrediad yr ymatebion gan y grwpiau oedd i'r Dreth Cyngor fod ar neu o dan y raddfa chwyddiant ar gyfer y canoldymor ac ar gyfer 2013/14, yr awgrym cyffredinol oedd y dylai fod rhwng 2% a 2.5%, gorau oll pe byddai ar begwn is yr amrediad hwn.

Cynnydd %	Incwm £000k
0	0
1	400
2	800
2.75	1,100
3	1,200
4	1,600

4.26 Y rhagdybiaeth wreiddiol oedd am godiad o 2.75%. Fodd bynnag, fe ganiataodd arbedion o gytundebau a ail-negydwyd i hyn ostwng i 2.5%. Mae ardoll y Gwasanaeth Tân wedi ei chadarnhau fel £70mil islaw'r lefel a gynlluniwyd ac mae rhagdybiaeth ostyngol ar gyfer codiadau cyflog yn lleihau'r pwysau o £130mil. Mae'r rhain gyda'i gilydd yn arbed cyfwerth â 0.5% o Dreth y Cyngor, gan wneud 2.0% yn gyraeddadwy.

4.27 Y rhagdybiaeth sylfaenol ar gyfer y dyfodol ydi y bydd Treth Cyngor yn codi o oddeutu 2% pob blwyddyn.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**  
Mae rheolaeth effeithiol o refeniw a chyllideb cyfalaf y cyngor a throsglwyddo'r strategaeth gyllidol a gytunwyd yn tanategu gweithgarwch ymhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Be fydd yn ei gostio a sut fydd hyn yn effeithio ar wasanaethau eraill?**  
Mae Atodiad 1 yn dangos yr arbedion a gytunwyd. Fe drosglwyddwyd hefyd nifer o grantiau i mewn i'r setliad ac fe ddangosir y rhain yn Atodiad 2. Mae Atodiad 3 yn dangos cyllideb lawn y Cyngor a goblygiadau'r cynigion oddifewn i'r adroddiad hwn. Mae'r gyllideb net wedi codi o £177.4m yn 2012/13 i £190.7m yn 2013/14. Mae hyn yn bennaf oherwydd trosglwyddiad Budd-dal Treth Cyngor (£8.4m) o Lywodraeth y DU a throsglwyddiadau grantiau o £3m o Lywodraeth Cymru.

**7 Be ydi prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ymgwymerwyd ar y penderfyniad?**  
Mae gwasanaethau unigol yn gyfrifol ar gynnal asesiadau o'r effaith ar eu cynlluniau arbed sy'n gynnwysedig oddifewn i'r gyllideb.

**8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Craffu ac eraill?**  
Cynhaliwyd heriau gan y gwasanaethau gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd pob her yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pwyllgor craffu a'r Cabinet. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a Chyllideb gydag aelodau ym misoedd Medi, Tachwedd a Rhagfyr.

**9 Datganiad Prif Swyddog Cyllid**

Bydd 2013/14 yn flwyddyn heriol arall i gyllid y Cyngor. Mae'n debygol y bydd setliadau digon isel yn parhau am y canoldymor a rhaid i'r Cyngor fod yn wiliadwrus o hyn wrth osod y gyllideb hon.

Mae'r gyllideb fel ag y'i cyflwynir yn realistig ac yn ymarferol. Mae'n gwneud arbedion digonol er mwyn cadw'n sefyllfa'n gytbwys, diogelu prif wasanaethau rhag gostyngiadau mawr a chaniatáu buddsoddiad o £1m i flaenoriaethau'r Cyngor.

Fe gyflwynir hyn gyda chodiad o 2.0% yn Nhreth y Cyngor sy'n cymharu â chwyddiant cyffredinol sy'n rhedeg ar oddeutu 2.7%.

**9 Pa risgiau sy ac oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

Os na chytunir ar y gyllideb oddifewn i'r amserlen berthnasol, yna fe fydd y Cyngor yn torri'r gyfraith.

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol a wynebodd y cyngor ac fe fyddai methu â chyflwyno'r strategaeth gyllidol a gytunwyd yn gosod pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol bresennol a blynyddoedd y dyfodol. Bydd monitro a rheolaeth gyllidol effeithiol ac adrodd nôl buan o amrywiannau yn helpu i sicrhau bydd y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**10 Gallu i wneud y Penderfyniad**

Mae rheidwydd ar awdurdodau lleol, o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad priodol eu cyllid.

Type of saving proposal Ref	Description	2013/14 £k
<b>A) GENERAL EFFICIENCIES</b>		
A2	Reduce Contingency for balances and impact of Recession	Phase out budget provision over 3 years 300
A6	Future Workforce cost review	inc car user allowances 200 * See Note
A7	Costs of Democracy	Reduced senior salaries 17
A8	Review of Senior Management & Exec PAs	Review in hand
A9	Reduce budget for Major Events	WAG now fund Nat Eisteddfod
A10	Modernising the Council	200
<b>Sub Total</b>		<b>717</b>
<b>C) SUPPORT SERVICES REVIEW</b>		
C6	ICT/IM	Printer Rationalisation etc 25
C7	Finance & Assets	Most efficient support structure 100
	Energy	Reduced consumption 100
	Capital Financing	Reduced borrowing costs 100
<b>Sub Total</b>		<b>325</b>
<b>D) SERVICE CHALLENGE PROCESS</b>		
<b>a) Leisure Services</b>		
Da5	Remove subsidy by increasing income	General increase in income from various sources 70
		<b>70</b>
<b>k) Libraries</b>		
Dk1	Modernise Service Provision	Better use of space eg Gallery, Museum, TIC, location and suitability of some buildings etc 77
		<b>77</b>
<b>b) Environmental Services</b>		
Db1	Increase charges for certain services eg bulky waste collection	Increase charges 5
Db2	Renegotiate recycle and disposal contracts	Contracts currently being tendered - increased competition likely to drive down prices 225
Db5	Regional Waste Project Procurement Budget	Project will be procured and budget will not be needed 81
Db6	Succession Planning	Changes to management structure 15
Db10	Service Redesign (Street Cleansing)	Better targetted cleaning, smarter working, better delegation of responsibility, potential reduction in some areas 138
Db13	Cemetaries charging -	Increase charging and reduce improvements budget 10
Db15	Free School Meals Cost Pressures	Increase in take-up of service 5
Db15a	Reduced subsidy of School Meal Service	Increased take up of meals 50
Db16	AONB	-20
Db17	Stores	-45
Db18	Recycling Parks	100
		<b>564</b>
<b>c) Planning and Public Protection</b>		
EC21	Review Pest Control	Staffing reduction only carry out statutory part of function 10
EC23	Review Building Control	Staffing reduction 20
EC26	Review of Pollution Control	Staffing reduction 20
EC29	Review of Management	Management Restructure 40
		<b>90</b>
<b>d) Highways and Transport</b>		
EC17	Traffic & Road Safety	Joint Service / Regional Service 50
EC18	Highway Maintenance DLO	Review of all activities - fleet useage, working hours, practices, inspections etc 150
		<b>200</b>
<b>f) Adult Social Services</b>		
Df1	Cefndy Healthcare, <b>Older People</b>	Reduced Council subsidy 46
Df5	Externalise elements of Home Care	Not replacing retiring staff and better use of the private sector 15
Df8	Impact of investment in reablement	Reduced need for care services as more people are able to live independently for longer 75
Df9	Residential Care - Impact of Extra Care	Less people needing residential care due to preventative services and more independent living opportunities 155
<b>Mental Health</b>		
Df11	Management Changes	Retirement of staff - no replacement 19
Df12	Partnership Efficiency Savings	Reduce contribution to AMH partnership 26
<b>Physical Disability &amp; Impairment</b>		
Df13	ISIL Scheme	Use of new units at Henllan site to promote more independent living 12
Df14	Reablement Intervention	Reduce need for care services through targetted intervention 26
Df15	Telecare	Regional partnership will reduce running costs 20

<b>Other Adult Services</b>			
Df16	Administration Rationalisation	Deleting vacant posts and reduction in staff	80
Df17	Systems Thinking and Vacancy Control	Process improvements to reduce admin and other costs	<u>474</u> **See Note
<b><u>h) Lifelong Learning (Excl Schools)</u></b>			
Dh1	Improvement & Inclusion	Restructuring of Dept, removal of vacant post, reduction in hours, reduction in staff	0
Dh2	Modernising Education		<u>0</u> *** See Note
<b><u>i) Schools</u></b>			
	Schools	Clawback of unused Single Status budget increase	
	Schools	Reduction due to falling roles etc	
	Schools		<u>0</u>
			0 *** See Note
<b><u>j) Children's Services</u></b>			
<b>Staffing</b>			
Dj4	Social Workers	Reduction in social workers as cases reduce	108
<b>Refocus on Core Business</b>			
Dj7	Review of Bryn Y Wal Residential Service	Explore whether more cost effective provision is feasible - renegotiating contract, external placements etc	109
Dj8	Reduction in Independent (external) Placement Provision	Currently exceptionally high due to type of placements. These will change as certain individuals become adults	63
<b>Pressures</b>			
Dj18	In-house Fostering		-35
Dj20	Legislative		<u>-28</u>
			217 **See Note
<b><u>l) Housing &amp; Community</u></b>			
	Various small savings		1
Dc1	Review of Regeneration	Reduction in number of staff	10
Db18	Regeneration Service Redesign	Integration with other services and reduce staffing	<u>23</u>
			34
<b><u>Regional Working</u></b>			
ENW1	Education Regional Board	School Improvement Service	55
ENW2	Social Care Regional Board	Procurement Hub	<u>100</u>
			155
<b><u>G) Review Arms Length Companies</u></b>			
G2	Bodelwyddan Castle	Reduced Council subsidy	28
G3	Clwyd Leisure	Reduced Council subsidy	50
G4	ECTARC	Reduced Council subsidy	<u>5</u>
	<b>Sub Total</b>		<u><b>83</b></u>
<b><u>H) Other Cultural/Heritage activities</u></b>			
H2	Ruthin Craft Centre	Reduce Council's financial support	20
H3	Llangollen Pavilion	Reduce Council's financial support	25
H4	Heritage facilities	Reduce Council's financial support	<u>10</u>
	<b>Sub Total</b>		<u><b>55</b></u>
		<b>TOTAL SAVINGS</b>	<u><b>3,061</b></u>

Note  
\*The proposal to remove the essential car user allowance is still being negotiated with unions and will be subject to a ballot.

\*\*Although Adult and Children's Social Services are expected to make savings, these will be reinvested in the services.

\*\*\* No savings are required from the Education Department

Grants Transferred into the General Settlement 2013/14

**APPENDIX 2**

£000

Blue Badge Scheme Grant	14
Appetite for Life Grant	81
School Counselling Grant	161
School Breakfasts Grant	470
Local Government Borrowing Initiative (Highways)	325
Post 16-SEN in Mainstream	44
Post 16-SEN Special Schools and Out of County	884
Learning Disabilities Resettlement Grant	1,089
SUBTOTAL	3,068
Council Tax Support	8,340
TOTAL	11,408



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Denbighshire Budget 2013/14

	-1-	-2-	-3-
	Budget 2012/13 £k	Protection & Inflation £k	WAG grant and transfers £k
Business Planning & Performance	953		
Corporate Governance	1,523		
Finance & Assets	6,930		
Highways & Infrastructure	10,455		325
Regeneration, Planning & Public Protection	3,745		
Adult & Business Services	31,850	905	1,103
Children & Family Services	8,770		
Housing Services	381		
Leisure, Libraries & Community Development	5,231		81
Strategic HR	1,213		
Customer Services	3,197		
Environment	10,688		
Modernising Education	1,404		
School Improvement & Inclusion	4,428		
Schools Delegated	61,190	1,273	1,559
	-----	-----	-----
	151,958	2,178	3,068
Corporate	7,254		8,340
Fire Service levy	4,569	24	
Capital Finance/Interest received	12,656	250	
Inflation	0	1,551	
CONTINGENCY for Further Pressures	650	0	
Contribution to Reserves	300	0	
Further Efficiency Savings *	0	-50	
	-----	-----	-----
	177,387	3,953	11,408
	-----	-----	-----
<b>2. Level of Funding</b>			
W A G funding	137,442	0	1,144
Transfers In			11,408
Use of reserves	50	50	
	-----	-----	-----
	137,492	50	12,552
Council Tax yield	39,895	4,003	-1,144
	-----	-----	-----
	177,387	4,053	11,408
	-----	-----	-----

### APPENDIX 3

-4- Investment in Priorities  £k	-5- Savings  £k	-6- Projected Budget 2013/14  £k
		953
		1,523
	-100	6,830
100	-200	10,680
160	-90	3,815
400	-574	33,684
	-217	8,553
	-34	347
	-147	5,165
		1,213
		3,197
	-564	10,124
200		1,604
	-55	4,373
		64,022
-----	-----	-----
860	-1,981	156,083
140		15,734
		4,593
	-100	12,806
		1,551
0	-300	350
0		300
0	-680	-730
-----	-----	-----
1,000	-3,061	190,687
-----	-----	-----
		138,586
		11,408
		0
-----	-----	-----
0		149,994
1,000	-3,061	40,693
-----	-----	-----
1,000	-3,061	190,687
-----	-----	-----

Blaenraglen Waith y Cabinet

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr adroddiad	Penderfyniad Cabinet yn ofynnol (ydi/na)	Awdur – Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt
<b>19 Chwefror</b>	1	Adroddiad Diweddariad Ariannol			Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Adroddiad Blynyddol ar y Cyfrif Refeniw Tai / Cynnydd yn Rhenti Tai			Y Cynghorydd Hugh Irving / Peter McHugh
	3	Ymateb PBC i'r ymgynghoriad ar "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru'n Newid"			Y Cynghorydd Bobby Feeley / Sally Ellis
	4	Strategaeth Gyfathrebu			Y Cynghorwyr Hugh Irving & Hugh Jones / Jamie Groves / Gareth Watson
	5	Adolygiad o Wasanaethau Dydd Gogledd Sir Ddinbych			Y Cynghorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy
	6	Eitemau o'r Pwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu i sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu
<b>19 Mawrth</b>	1	Adroddiad Diweddariad Ariannol			Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady

Blaenraglen Waith y Cabinet

Tudalen 128

Cyfarfod		Eitem (disgrifiad / teitl)	Pwrpas yr adroddiad	Penderfyniad Cabinet yn ofynnol (ydi/na)	Awdur – Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt
	2	Cynllun Cyfalaf			Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	3	Eitemau o'r Pwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu i sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu
<b>16 Ebrill</b>	1	Adroddiad Diweddariad Ariannol			Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Eitemau o'r Pwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu i sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu
<b>14 Mai</b>	1	Adroddiad Diweddariad Ariannol			Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Adolygiad Ysgolion Rhuthun			Y Cyngorydd Eryl Williams / Jackie Walley
	3	Cefndy Healthcare: Cyfeiriad yn y Dyfodol ac Effaith Colled Botensial Cyllid yr Adran Gwaith	I ystyried opsiynau yng ngoleuni risgiau o gollu cyllid yr Adran Gwaith a		Y Cyngorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy / Deborah Holmes-

Blaenraglen Waith y Cabinet

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr adroddiad	Penderfyniad Cabinet yn ofynnol (ydi/na)	Awdur – Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt
		a Phensiynau	Phensiynau a'r angen i gynnal cyflogaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a phobl anabl		Langstone
	4	Eitemau o'r Pwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu i sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu

Diweddarwyd 8/1/2013 - SP

Blaenraglen Waith y Cabinet.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag